**EITEM AR YR AGENDA: 8**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**4$^{ydd}$ Chwefror 2013**

**AMCANION GWELLA 2013-14**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Darparu crynodeb a dadansoddiad o'r ymatebion i ymgynghoriad yr Awdurdod ar ei Amcanion Gwella ar gyfer 2013-14 ac argymell gwelliannau i'w Gynllun Gwella drafft ar gyfer 2013-14 i'w cyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub llawn i'w cymeradwyo'n derfynol yn ei gyfarfod nesaf ym Mawrth 2013.

## Cyflwyniad

2 Yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ym mis Gorffennaf 2012, cymeradwywyd amserlen ar gyfer llunio a chyhoeddi Cynllun Gwella yr Awdurdod ar gyfer 2013-14.

3 Roedd yr amserlen hon yn cynnwys cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus ar yr Amcanion Gwella drafft ar gyfer 2013-14 cyn cymeradwyo'n derfynol y Cynllun Gwella ar gyfer 2013-14 ym Mawrth 2013.

4 Yn ei gyfarfod ar 15$^{eg}$ Hydref 2012, cymeradwyodd yr Awdurdod, at ddiben ymgynghori, ddrafft o'r Amcanion Gwella y mae'n eu cynnig ar gyfer 2013-14.

## Gwybodaeth

5 Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus ar yr Amcanion Gwella wedi cau erbyn hyn, ac mae'r sylwadau a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad wedi cael eu dadansoddi a'u crynhoi er mwyn i'r aelodau eu hystyried. Mae'r dadansoddiad a'r crynodeb yn Atodiad 1.

6 Bydd unrhyw welliannau y bydd y Panel Gweithredol yn cytuno arnynt yn y cyfarfod hwn yn cael eu hymgorffori mewn Cynllun Gwella drafft terfynol ar gyfer 2013-14, i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub llawn yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2013 a'i gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod cyn diwedd y mis. Dan reoliadau statudol, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei gynlluniau gwella cyn gynted ag y bo modd yn ymarferol ar ôl diwedd y mis Rhagfyr yn y flwyddyn cyn y flwyddyn y maent yn ymwneud â hi. Yn ymarferol, dehonglwyd mai ystyr hyn yw diwedd mis Mawrth.

7 Cafwyd cefnogaeth dda yn yr ymgynghoriad i'r cwestiynau ynghylch cynigion penodol:

- Roedd 74% yn meddwl bod yr Awdurdod wedi nodi'r blaenoriaethau cywir ar gyfer 2013-14.
- Roedd 89% yn cytuno mai'r ymrwymiadau a wnaed o dan y Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer Cymru gyfan oedd y rhai cywir.

8 Daeth tua 170 o wahanol sylwadau, safbwyntiau a chwestiynau i law yn ystod yr ymgynghoriad.

9 I'r cwestiwn a oedd yn gofyn beth fyddai orau gan yr ymatebydd petai'n gorfod dewis –

a) cadw gorsaf dân ar agor oherwydd ei bod yn agos at eu cartref, ond derbyn na fydd ar gael am sawl awr yr wythnos, ynteu

b) cael gorsaf dân sy'n wastad yn barod i ymateb, ond gan dderbyn ei bod sawl milltir ymhellach o'u cartref,

- roedd tua dau draean o'r ymatebion yn dewis opsiwn b).

10 Mae llawer o'r ymatebion yn ymwneud â materion y mae'r Awdurdod a/neu'r Gwasanaeth wedi delio â nhw eisoes neu wrthi'n mynd i'r afael â nhw sef – lleihau costau, gweithio ar y cyd, gwella'r ffordd o drafod â sefydliadau eraill a gyda'r cyhoedd, cael mwy o effeithlonrwydd a chael llai o aneffeithlonrwydd. Roedd darparu gofal, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn chwarae rhan flaenllaw, yn ogystal â'r dymuniad i flaenoriaethu 'gwasanaethau rheng flaen' yn hytrach na rheolwyr a gwasanaethau cefnogol.

11 Roedd nifer fechan o'r ymatebion yn ffafrio gwrthsefyll gwneud rhagor o doriadau i gyllidebau, gan fuddsoddi rhagor yn lle hynny, ar y sail y byddai hynny'n creu rhagor o les cyffredinol i gymdeithas.

12 Bydd yr aelodau'n sylwi o baragraffau 73 i 75 o Atodiad 1 fod gwaith wedi ei wneud yn ystod y cyfnod ymgynghori gan y tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru i ddatblygu targed cyffredin i'r tair ystafell reoli mewn perthynas ag ymdrin â galwadau.

13 Oherwydd bod cytundeb erbyn hyn ar y targed hwn ar gyfer Cymru gyfan, gall yr aelodau ddewis newid targed drafft Gogledd Cymru mewn perthynas ag ymdrin â galwadau am y targed mwy diweddar hwn mewn perthynas ag ymdrin â galwadau.

**Argymhelliad**

14 Gofynnir i'r aelodau gymeradwyo llunio drafft terfynol o'r Cynllun Gwella ar gyfer 2013-14 yn seiliedig ar yr un cynigion sydd yn y drafft at ddiben ymgynghori ond gan newid targed drafft Gogledd Cymru mewn perthynas ag ymdrin â galwadau am y targed newydd ar gyfer Cymru gyfan mewn perthynas ag ymdrin â galwadau.

15 Yna, bydd y Cynllun Gwella drafft terfynol hwn ar gyfer 2013-14 yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac achub llawn yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2013.

**ATODIAD 1**

**Ymgynghoriad cyhoeddus Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar yr amcanion gwella arfaethedig ar gyfer 2013-14 a thu hwnt.**

**Amseriad**

**1.** Cafodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar amcanion drafft yr Awdurdod ar gyfer 2013-14 ei gynnal am 12 wythnos rhwng 15 Hydref 2012 a 7 Ionawr 2013.

**Dosbarthu a Diwyg**

**2.** Cafodd copïau o'r ddogfen ymgynghorol eu dosbarthu'n electronig i amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys cyrff cynrychioliadol, arweinwyr gwleidyddol, cynghorau sir, cynghorau tref a chymuned, gwasanaethau brys eraill a sefydliadau sy'n bartneriaid inni.

Darparwyd cyswllt i holiadur ar-lein y gallai pobl ei lenwi yn ddi-enw. Roedd dewis gan bobl hefyd i ymateb trwy wefan yr Awdurdod neu drwy'r post.

Rhoddwyd sylw i'r ymgynghoriad hefyd yn fewnol gyda'r staff, ac yn allanol drwy wefan yr Awdurdod a thrwy Twitter a Facebook.

**Ymateb**

**3.** Daeth ymatebion i law drwy'r holiadur ar-lein (44 yn Saesneg a 6 yn Gymraeg). Daeth tri ar ffurf llythyr.

**Darperir crynodebau o'r ymatebion ar y tudalennau canlynol.**

**Cwestiwn 1**

**4. Dyma'r amcanion gwella ar gyfer 2013-14 a nodwyd gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru:**

**A) Ceisio cadw pobl a chymunedau'n ddiogel trwy atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi.**

**B) Ceisio ffyrdd i leihau'r gost gyffredinol o redeg y Gwasanaeth bob blwyddyn er mwyn gweithredu o fewn y gyllideb flynyddol.**

**Ydych chi'n cytuno ein bod wedi nodi'r ddwy flaenoriaeth bennaf ar gyfer y flwyddyn nesaf?**

Ymateb:

**5.** Roedd 39 (74%) yn meddwl bod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi nodi'r ddwy flaenoriaeth bennaf ar gyfer 2013-14. Roedd 14 yn anghytuno.

**Cwestiwn 2**

6. **Os nad ydych yn cytuno ein bod wedi nodi'r ddwy flaenoriaeth bennaf ar gyfer y flwyddyn nesaf, beth arall fyddech chi'n ei awgrymu?**

7. Fe wnaeth 19 o ymatebwyr ragor o sylwadau (yr 14 a oedd wedi anghytuno yn C1, ynghyd â 5 arall a oedd wedi cytuno yn C1).

8. Roedd dau sylw yn awgrymu ymestyn y ddau amcan i atal marwolaethau ac anafiadau mewn amgylchiadau eraill hefyd, yn hytrach na'i gyfyngu i danau mewn anheddau yn unig (mewn mangreoedd eraill, mewn tanau bwriadol, ac mewn gwrthdrawiadau ar y ffyrdd; ac oherwydd disgyn o uchdwr, a boddi).

9. Roedd un sylw yn gwahaniaethu rhwng 'gwelliant gwirioneddol' yn cael ei arwain gan y rhai sy'n rhedeg y Gwasanaeth, o'i gymharu â gwelliant o ganlyniad i gael ein gorfodi i weithredu oherwydd y sefyllfa economaidd sydd ohoni.

10. Roedd tri o'r farn y dylid gwrthsefyll llai o gyllideb, nad yw cyllideb sy'n cyfangu yn 'gynigiad derbyniol', ei bod yn 'anghynaliadwy', y dylai'r Awdurdod 'geisio ehangu'. Roedd un yn dadlau 'nad agwedd ariannol ddylai fod y flaenoriaeth bennaf'. Roedd un yn awgrymu 'ceisio ehangu a darparu tystiolaeth i gefnogi manteision rhagor o gallu o ran amddiffyn, atal ac ymateb'. Roedd un yn awgrymu cael praesept i godi arian, fel y mae'r Heddlu'n ei wneud.

11. Roedd tri yn dymuno gweld rhagor o effeithlonrwydd a chadw neu wella safonau gwasanaeth fel yr ail flaenoriaeth, yn hytrach na dim ond lleihau costau. Fodd bynnag, roedd yr angen i leihau costau hefyd yn cael ei chydnabod. Mewn un ymateb, cynigiwyd y gallai lleihau nifer y galwadau diangen fod yn ffordd o leihau eu heffaith ar gyllidebau yn y dyfodol.

12. Roedd dau ymateb yn cynnig y dylai cadw diffoddwyr tân y system ar gael yn ôl y galw yn eu swyddi fod yn un o flaenoriaethau'r Awdurdod, ac roedd un ymateb yn mynegi'r safbwynt ei bod yn anodd cadw cymunedau'n ddiogel trwy dorri nifer staff y rheng flaen. Mewn dau ymateb, awgrymwyd buddsoddi mewn gwasanaethau rheng flaen fel polisi amgen.

**13.** Roedd dau ymateb yn awgrymu rhoi rhagor o bwyslais ar ymdrin â llifogydd difrifol. Roedd un ymateb yn gofyn a oedd yr Awdurdod wedi ystyried y mesurau 'diwygio lles' wrth ddatblygu ei gynllun.

**14.** Roedd un ymateb yn atgoffa'r Awdurdod o'r angen i groesgyfeirio rhwng y Cynllun Gwella a Chynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod, ac i sicrhau y gellir diwallu anghenion gwahanol garfannau o'r gymuned drwy gydweithio.

**15.** Roedd un ymateb yn canmol y ddogfen clir a chryno, ynghyd â'r Awdurdod am ei fod "yn amlwg wedi rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion tân ac achub Gogledd Cymru a'r ffyrdd gorau o ymateb iddynt".

**Cwestiwn 3**

**16** **Wrth osod Amcanion Gwella ar gyfer 2014-15, beth, yn eich tyb chi, yw'r pethau pwysig i'w hystyried nawr er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau gwasanaeth tân ac achub rhagorol yn y dyfodol gyda chynnydd yn y galw am wasanaeth ond llai o arian i redeg y gwasanaeth?**

**17** Roedd 51 o ymatebwyr (96%) yn darparu sylwadau ynghylch yr hyn y dylai'r Awdurdod, yn eu tyb hwy, fod yn ei ystyried nawr wth baratoi ar gyfer y dyfodol. Mae'r rhain wedi eu dosbarthu o dan saith pennawd.

**Cyflwyno Gwasanaethau**

**18.** Yn ôl y disgwyl efallai, roedd nifer o sylwadau o blaid diogelu gwasanaethau rheng flaen ac yn gofyn beth yw'r cyfiawnhad am y strwythur bresennol ar gyfer yr uwch reolwyr, y rheolwyr canol a'r staff nad ydynt ar yr ochr weithredol. Roedd rhai yn dymuno gweld rhagor o fuddsoddiad yn cael ei wneud mewn staff rheng flaen, ac yn galw am ragor o recriwtio a pheidio â cholli swyddi.

**19.** Roedd rhai yn pwysleisio mor bwysig yw gwasanaethau lleol, cadw gorsafoedd tân lleol ar agor, cadw gwybodaeth leol yn y gorsafoedd tân.

**20.** Roedd nifer o ymatebion yn cydnabod y broblem o recriwtio pobl i'r system dyletswydd ar gael yn ôl y galw. Roedd un yn awgrymu codi ymwybyddiaeth mewn ysgolion a cholegau am yrfaoedd yn y gwasanaeth tân, a darparu sesiynau blasu i ddenu cyflogwyr posib. Roedd un yn awgrymu y gallai cael gwahanol gontractau i staff allu gweithio yn unrhyw orsaf fod o gymorth. Roedd un yn atgoffa'r Awdurdod am bwysigrwydd cael gweithlu amrywiol. Roedd un yn ystyried nad yw'r anawsterau gyda'r system ar gael yn ôl y galw wedi eu cyfyngu i Ogledd Cymru ac y dylai'r Awdurdod gysylltu â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau drwy'r DU i geisio ateb.

**21.** Roedd ambell un yn awgrymu cyflogi rhagor o ddiffoddwyr tân y system amser cyflawn i ymorol am y gorsafoedd llai, a darparu rhagor o sicrwydd y byddent ar gael. Roedd rhai yn dymuno gweld rhagor yn cael ei wneud i ddarparu adnoddau i'r system ar gael yn ôl y galw, ond roedd un yn cynghori yn erbyn rhoi gormod o ddibyniaeth ar ddiffoddwyr tân rhan amser. Ar y llaw arall, roedd un yn awgrymu hyfforddi gwirfoddolwyr i godi'r lefelau presennol o ran darparu gwasanaethau.

**22.** Roedd un ymateb yn pryderu am y galwadau cynyddol a roddir ar reolwyr. Roedd yr Awdurdod yn cael ei annog i werthuso'i benderfyniadau blaenorol ynghylch gostwng nifer y staff, a hynny er mwyn gofalu na chafwyd "effaith andwyol" ar y modd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu.

**23.** Roedd un ymateb hefyd yn atgoffa am yr angen i gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb mewn perthynas ag unrhyw adolygiadau, datblygiadau a chynigion.

**24.** Fodd bynnag, nid oedd pob un am gadw'r sefyllfa bresennol. Roedd un ymateb yn ffafrio cau un orsaf petai hynny'n golygu cynyddu nifer y staff mewn un arall, a thrwy hynny sicrhau bod staff ar gael. Roedd un ymateb yn amau a oes angen o gwbl i orsafoedd amser cyflawn fod â chriwiau'r system ar gael yn ôl y galw, ac yn awgrymu bod yn fwy cynhyrchiol ('gwneud i orsafoedd weithio'n galetach'). Roedd un yn annog yr Awdurdod i herio'r angen i rai gorsafoedd y system ar gael yn ôl y galw barhau ar agor – ni waeth ba mor amhoblogaidd fyddai hynny – ac i bwyso a mesur y costau o'u rhedeg o'u cymharu â'r budd o gael gofal llai na 24 awr a dim ond ymateb fymryn yn gynt nag y gallai gorsaf gyfagos ei ddarparu. Roedd un yn herio'r Awdurdod i gyfaddef mai'r unig ffordd i dorri'r gyllideb fyddai lleihau nifer y staff, ac i "fod yn onest a dweud hynny, a dweud pa orsafoedd sydd i gael eu torri a pham".

## Lleihau Risgiau

**25.** Roedd nifer o'r ymatebion yn sôn am leihau risgiau ac atal tanau. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys gweithio gyda phobl ifanc i atal gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, codi ymwybyddiaeth am beryglon hen declynnau trydan, a gostwng nifer y tanau yn yr awyr agored (sy'n tueddu i ddefnyddio llawer o adnoddau). Roedd un o blaid bod yn well am dargedu gweithgarwch atal tanau i'r rhai sydd mewn mwyaf o berygl. Roedd un wedi cynnwys syniad o ddatblygu dyfais mewn nwyddau trydanol i ddiffodd tân yn awtomatig.

**26.** Roedd un ymateb yn pryderu am y posibilrwydd y gallai'r mesurau diwygio lles effeithio ar ffyrdd pobl o fyw a chynyddu'r risgiau yn y gymuned.

**Lleihau Costau**

**27.** Roedd rhai yn awgrymu ailflaenoriaethu gwariant – atal unrhyw waith adeiladu neu adnewyddu nad yw'n waith brys, a hynny er mwyn diogelu gwariant ar staff, a thorri'n ôl ar waith ataliol er mwyn diogelu'r gallu i ymateb i argyfyngau. Ar y llaw arall, roedd rhai yn gweld y manteision ariannol o leihau nifer y galwadau diangen a'r digwyddiadau yr eir allan atynt, gan annog mwy o waith ataliol.

**28.** Cafwyd awgrymiadau ynghylch rhannu gwasanaethau cefnogol 'cefn swyddfa' ac isadeiledd â gwasanaethau brys eraill, rhannu lle swyddfa ac adnoddau eraill. Cafwyd awgrym hefyd ynghylch cyfuno rhai gwasanaethau neu eu cyflenwi drwy gontract allanol.

**29.** Fodd bynnag, roedd un ymateb yn herio bod raid derbyn yr angen i leihau costau, ac yn annog yr Awdurdod i egluro fwy beth yw'r manteision cyffredinol i'r gymuned o fuddsoddi rhagor yn y Gwasanaeth Tân ac Achub.

**30.** Roedd un awdurdod unedol yn croesawu'n benodol y ffaith fod yr Awdurdod wedi datblygu strategaeth ariannol hyd at 2017 gan ei bod yn ddefnyddiol wrth iddo ddatblygu ei strategaeth ei hun.

**Creu Incwm**

**31.** Cafwyd rhai awgrymiadau ynglŷn â'r modd y gallai'r Awdurdod greu rhywfaint o incwm ychwanegol iddo'i hun – er enghraifft drwy gael mastiau ffonau symudol ar dyrrau hyfforddi, rhentu stafelloedd i eraill, gwerthu adeiladau neu eu rhoi ar brydles i'r sector breifat neu wirfoddol, neu godi am ddarparu rhai gwasanaethau gan gynnwys tiwtora diogelwch tân.

**Cydweithio**

**32.** Roedd cydweithio'n cael ei hyrwyddo mewn sawl ymateb, gyda'r ddau GTA arall yng Nghymru, gydag awdurdodau unedol Gogledd Cymru gan gynnwys drwy'r Byrddau Gwasanaethau Lleol.

**Gwella Ansawdd**

**33.** Roedd un ymateb o blaid cael golwg tymor hir ar fuddsoddi mewn technoleg gwybodaeth ac isadeiledd.

**34.** Roedd rhai yn tanlinellu'r angen i gynllunio ar gyfer olyniaeth yn y gweithlu, sicrhau hyfforddiant digonol, datblygu sgiliau staff a sicrhau bod y sgiliau a'r priodweddau cywir yn cael eu defnyddio i ddatblygu rhai eraill ar gyfer y dyfodol.

**Trafod â'r Cyhoedd ac Atebolrwydd**

**35.** Roedd rhai yn canolbwyntio ar yr angen i godi ymwybyddiaeth ac ennyn cefnogaeth a chymorth y gymuned wrth leihau'r risg o dân, gan arwain at fwy o ymdeimlad o berchnogaeth ar welliannau diogelwch o fewn y gymuned. Roedd un ymateb yn dymuno gweld rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan yr Awdurdod am y modd y mae'r gyllideb yn cael ei gwario. Roedd un ymateb yn hyrwyddo mabwysiadu "model cydgynhyrchu" (*co-production model*) trwy gael mwy o ran i gymunedau lleol a mudiadau'r trydydd sector wrth ddylunio a darparu gwasanaethau.

**Cwestiwn 4**

**36. Beth, yn eich barn chi, y dylem ni fod yn ei ystyried wrth ddatblygu ein strategaeth ariannol nesaf am gyfnod o dair blynedd?**

**37.** Daeth 46 ymateb i'r cwestiwn hwn. Maent wedi eu dosbarthu o dan saith pennawd.

**<u>Arbedion penodol posibl</u>**

**38.** Roedd un ymateb yn awgrymu bod arian yn cael ei wastraffu drwy gael gorsafoedd yn rhy agos at ei gilydd, ac un yn amau'r angen i gadw'r holl orsafoedd yn ôl y galw ar gael bob awr o'r dydd. Cyfeiriwyd yn benodol at yr ail beiriant tân amser cyflawn yn Wrecsam, a'r posibilrwydd o gyflwyno systemau sy'n hysbysu mewn camau (*phased alerting*).

**39.** Roedd dau ymateb yn awgrymu edrych ar gost cyfarpar a cherbydau newydd, gydag un yn awgrymu osgoi gorwario ar beiriannau a chyfarpar newydd pan nad oedd dim yn bod ar yr hen beiriannau. Roedd dau yn cyfeirio'n benodol at gost ceir swyddogion.

**<u>Buddsoddi</u>**

**40.** Roedd un ymateb yn cyfeirio at sicrhau bod cynlluniau wrth gefn yn eu lle i ymdrin â digwyddiadau oherwydd tywydd annisgwyl, ac un yn dweud y gallai llifogydd a thanau ddigwydd ar yr un pryd.

**41.** Roedd un yn annog yr Awdurdod i gymryd golwg hirdymor ar yr angen i fuddsoddi mewn meysydd gweithredu hanfodol, ac un yn mynegi'r safbwynt fod y Gwasanaeth wedi ei dorri ormod ac y dylid ceisio cael mwy o arian gan y cynghorau sir.

**<u>Blaenoriaethau</u>**

**42.** Roedd nifer o ymatebion yn cyfeirio at ddiogelu'r swyddogaeth tân ac achub fel mater o flaenoriaeth. Roedd dau'n cyfeirio'n benodol at leihau cost yr ochr reoli a'r adrannau o'r gwasanaeth nad ydynt yn rhai'r ochr weithredol. Roedd un yn gofyn a oedd ceir cwmni drud gan yr uwch reolwyr, ac un yn dymuno gweld nifer lai o reolwyr cyn diswyddo unrhyw ddiffoddwyr tân.

**43.** Roedd sawl ymateb o blaid cwtogi ar y gwasanaeth i lawr i swyddogaethau 'craidd' neu ddychwelyd at 'yr hanfodion' fel ffordd o fynd i'r afael â chyllidebau llai. Roedd cadw cyflymder a maint yr ymateb, diogelwch, lleihau tanau, gostwng nifer y marwolaethau neu anafiadau oherwydd gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, ac effaith llifogydd oll wedi cael eu cynnig fel blaenoriaethau eraill i'r awdurdod eu hystyried.

**44.** Roedd un yn awgrymu gostwng nifer y gorsafoedd tân, ac un yn cynnig rhoi ystyriaeth i'r posibilrwydd o gael llai o orsafoedd tân ar y system ar gael yn ôl y galw a rhai amser cyflawn, ond eu bod wedi eu staffio'n well ac yn fwy effeithlon. Roedd un yn cyfeirio at gael y gorau posibl o ran perfformiad a gallu'r rheng flaen, tra'n aros o fewn y gyllideb.

**45.** Roedd un ymateb yn cyfeirio at gael rhagor o hyblygrwydd yn y gweithlu; un arall yn pwysleisio'r angen am gynllunio tymor hir. Roedd un yn gweld ei bod yn bwysig cael cyfarwyddyd clir a chadw'r ffocws ar y blaenoriaethau. Roedd dau yn cyfeirio at gyfrifoldeb y Llywodraeth i sicrhau adnoddau i'r gwasanaethau tân ac achub.

**<u>Cydweithio/cydgordio</u>**

**46.** Roedd dau ymateb yn cynnig y posibilrwydd o gyfuno swyddogaethau 'ystafell gefn' gyda rhai awdurdodau lleol – rhoddwyd enghreifftiau megis adnoddau dynol, adeiladau a chynnal a chadw cerbydau. Roedd un arall yn cynnig cyfuno'r gwasanaethau 'swyddfa flaen' gyda chyrff cyhoeddus eraill ac edrych ar y modd y gellid gwneud ochr weinyddol y Gwasanaeth yn fwy effeithlon.

**47.** Roedd un ymateb yn cyfeirio at rannu gwybodaeth â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill, ac un yn gofyn sut y gallai'r Awdurdod gyfathrebu'n well ag asiantaethau eraill a chyflwyno un pecyn addysgol.

**48.** Roedd un ymatebydd yn cefnogi cael persbectif tymor hir wrth gynllunio (5 – 7 mlynedd), ac roedd un yn gofyn a fyddai'r Awdurdod yn edrych ar y newid i gael un gwasanaeth tân ac achub sy'n digwydd yn yr Alban.

**Cael rhagor o effeithlonrwydd**

**49.** Roedd nifer o ymatebion yn cyfeirio at gael gwared ar wastraff yn gyffredinol, hyrwyddo effeithlonrwydd, gwneud mwy o ddefnydd effeithlon o staff, a chael gwared ar fiwrocratiaeth. Roedd un yn cyfeirio'n benodol at ddethol staff strategol o'r safon angenrheidiol ac â'r profiad angenrheidiol i arwain gwasanaeth cyhoeddus hanfodol.

**50.** Roedd mwy yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau effeithlonrwydd wrth ddarparu gwasanaethau tân ac achub – roedd awgrymiadau'n cynnwys troi gorsafoedd shifftiau 24 awr yn orsafoedd criw dydd; troi gorsafoedd amser cyflawn yn orsafoedd y system ar gael yn ôl y galw; rhesymoli gorsafoedd y system ar gael yn ôl y galw; cael cyfatebiaeth rhwng y ddarpariaeth gofal tân a'r risg; defnyddio diffoddwyr tân amser cyflawn i gefnogi'r system ar gael yn ôl y galw (gwahanol lefelau o ofal yn ystod y dydd a thros nos); defnyddio staff y system amser cyflawn yn fwy effeithiol; defnyddio'r system ar gael yn ôl y galw yn fwy cynhyrchiol; ac ymestyn yr amser troi allan er mwyn osgoi gorfod galw gorsaf arall.

**51.** Roedd un ymateb yn cyfeirio at yr angen i sicrhau y gellid cyrraedd digwyddiadau hyd yn oed pan fo mynediad yn anodd (lonydd cul) a phwysigrwydd gwybod y ffyrdd gorau i gyrraedd lleoliadau.

**52.** Roedd un ymateb yn gofyn a oedd y system technoleg gwybodaeth yn gadarn ac yn gydnaws â rhai mewn Gwasanaethau eraill, ac roedd un ymateb o blaid ystyried y mathau o beiriannau a ddefnyddir gan y gwasanaethau – yn benodol cariwyr dŵr ac unedau tân bychain.

**Trafod â'r Gymuned**

**53.** Roedd nifer o ymatebion yn cyffwrdd â'r angen i drafod â defnyddwyr gwasanaethau er mwyn cynorthwyo pobl i wella eu diogelwch eu hunain. Roedd un yn awgrymu gweithio'n arbennig â chymunedau lleol sy'n wynebu caledi, sef y rhai a fyddai, yn ei dyb ef, y lleiaf tebygol o ystyried eu risgiau tân eu hunain.

Roedd un o blaid cydweithio â chymunedau i gadw gorsafoedd tân ar agor.

**Creu Incwm**

**54.** Roedd dau ymateb yn gwneud awgrymiadau penodol ynglŷn â chreu incwm – gwerthu asedau na ddefnyddir (hen gyfrifiaduron, cerbydau, ffonau symudol, ayyb) a cheisio rhagor o gefnogaeth ariannol gan y sector preifat, drwy gynlluniau noddi er enghraifft.

**Cwestiwn 5**

**55. Ymrwymiadau'r Awdurdod o dan Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer Cymru gyfan yw:**

1. **Cymryd yr awenau wrth ostwng nifer y tanau mewn anheddau sy'n digwydd a lleihau eu heffaith ar bobl.**
2. **Ymateb yn gyflym ac effeithiol bob tro y byddwn yn derbyn galwad frys 999 i fynd i dân mewn annedd.**
3. **Cyrraedd tanau mewn anheddau yn gyflym gyda'r offer cywir i ymdrin â nhw.**
4. **Ymdrin â thanau mewn anheddau yn effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol.**
5. **Cyfrannu at gael pethau'n ôl i drefn mewn cymunedau ar ôl tanau mewn anheddau.**
6. **Ymchwilio i achosion tanau mewn anheddau, a dal y bobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol gwneud hynny.**
7. **Ymdrechu i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.**

**Ydych chi'n credu ein bod ni wedi mabwysiadu'r saith ymrwymiad cywir yn y Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau?**

**56.** Roedd 47 o ymatebion (89%) yn cytuno mai dyma'r ymrwymiadau cywir.

**57.** Roedd un ymateb yn tynnu sylw at y modd y byddai cydraddoldeb a theilwra gwasanaethau i anghenion grwpiau nodweddion gwarchodedig yn cael effaith ar ganlyniadau.

**58.** Roedd un ymateb yn cydnabod y bydd yr amser cyfan a gymerir i gyrraedd tân yn dibynnu ar ble y mae'n digwydd, ond yn dymuno gweld yr ymdrech fwyaf yn cael ei gwneud i sicrhau ymateb cyflym, yn enwedig at eiddo lle mae llawer o risg ac ardaloedd gwledig gan fod mwy o amser teithio yno.

**Cwestiwn 6**

**59. A fyddech chi wedi cynnwys rhywbeth arall neu wedi geirio rhywbeth yn wahanol yn ein hymrwymiadau yn y Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau?**

**60.** Byddai 24 o ymatebwyr (45%) wedi cynnwys rhywbeth arall neu wedi geirio rhywbeth yn wahanol (y 6 a oedd yn anghytuno yng Nghwestiwn 5, ynghyd â 18 o'r rhai a oedd wedi cytuno yng Nghwestiwn 5).

**61.** Roedd un ymateb yn awgrymu ychwanegu pwt i ymrwymiad 6, sef '…a gwneud gwaith wedi ei dargedu gyda'n partneriaid er mwyn lleihau nifer yr achosion lefel uchel'.

**62.** Roedd un ymateb yn dweud y byddai'r Gwasanaeth eisoes wedi bod yn ymdrechu i gyflawni'r saith ymrwymiad ac mai'r "wers go iawn i'r cyhoedd yn gyffredinol yw y dylent gymryd mwy o ofal ohonynt eu hunain a bod yn fwy cyfrifol er mwyn sicrhau y gellid cael gwell rheolaeth ar yr hyn a wnant."

**63.** Fe wnaeth un sefydliad – sef Diverse Cymru – gynnig gyfrannu at y dasg o ddatblygu meini prawf lleol sy'n gysylltiedig ag ymrwymiadau'r Siarter.

**Cwestiwn 7**

**64.** **Mae'r Awdurdod yn cynnig gosod yr amcanion canlynol er mwyn mesur pa mor gyflym yr ydym yn ymateb i danau mewn anheddau.**

**A. Ateb 85% o'r holl alwadau 999 o fewn 7 eiliad, 95% o fewn 10 eiliad a 98% o fewn 20 eiliad.**
**B. Cychwyn ymateb i dân mewn annedd o fewn 1 funud ar 70% o'r achlysuron ac o fewn 2 funud ar 95% o'r achlysuron.**
**C. O leiaf ddau beiriant tân ac wyth diffoddwr tân yn mynd at bob tân mewn annedd. Bydd y swyddog â gofal am y digwyddiad yn asesu p'un ai i ddod â rhagor o adnoddau, gan ddibynnu ar hyd a lled y tân.**

**Beth yw eich barn chi am y meini prawf yr ydym yn bwriadu eu mabwysiadu ar gyfer mesur ein cyflymder o ran ymateb i danau mewn anheddau? A fyddech chi wedi cynnwys unrhyw beth arall?**

**65.** Roedd 43 o ymatebwyr yn gwneud sylw neu'n gofyn cwestiwn am y targedau arfaethedig.

**<u>Ceisiadau am ragor o wybodaeth</u>**

**66.** Gofynnodd pum ymatebwr am ragor o eglurhad ynghylch:
- P'un ai oedd canolfannau galwadau lleol gan y Gwasanaeth.
- Pa mor gyflym y mae'r Gwasanaeth yn gallu cael gafael ar gyfeiriad y sawl sy'n dweud bod yna dân.
- Pam fod y safonau amser ymateb cenedlaethol wedi dod i ben.
- Pam na chynhwyswyd targedau amser cyrraedd.
- Beth fyddai ystyr 'oedi' mewn perthynas ag amser ymateb.

**<u>Sylwadau cyffredinol</u>**

**67.** Daeth nifer o wahanol sylwadau cyffredinol i law yn yr adran hon:
- Dweud mai un ffactor yn unig yw cyflymder yr amser ymateb, a bod ansawdd yr ymateb hwnnw yn fwy pwysig.
- Amau a ellid cyrraedd y targedau petai'r cyllidebau'n cael eu torri.
- Mae'r cynigion yn adlewyrchu'r hyn y mae'r staff eisoes yn ymdrechu i'w gyflawni.
- Awgrymu y gellid ychwanegu sylw i esbonio y bydd yr amser cyrraedd cyfan yn amrywio'n sylweddol.
- Awgrymu y dylid mesur yr amser cyrraedd cyfan.
- Awgrymu y dylai'r Gwasanaeth fonitro p'un ai yw'r peiriant cywir yn

cyrraedd y digwyddiad trwy'r ffordd gywir, a dysgu gwersi o ganlyniad i unrhyw fethiannau.

- Annog cyhoeddi rhagor o wybodaeth ar wefan y Gwasanaeth.
- Awgrymu ychwanegu amser targed i beiriannau tân fod ar y ffordd i ddigwyddiad er mwyn cadw'r amser troi allan cyn lleied â phosibl. Awgrymu targedau o 1 funud ar gyfer criwiau amser cyflawn a 5 munud ar gyfer criwiau y system ar gael yn ôl y galw.
- Gwneud sylw bod 'targedau'n iawn cyhyd â'u bod yn cael eu cyrraedd'.
- Nodi y gall gymryd cryn amser i gyrraedd rhai lleoliadau gwledig, a gofyn a ellid gwneud mwy o waith i godi ymwybyddiaeth am y ffaith fod offer diffodd tân ar gael i'w defnyddio yn y gegin.
- Ailbwysleisio pwysigrwydd sicrhau adnoddau digonol ar gyfer systemau diogel o weithio.

**Sylwadau ar y targedau penodol a gynigiwyd**

**68.** Roedd ymatebion cefnogol yn gweld y rhain fel rhai 'cwbl resymol', 'wedi eu gosod allan yn iawn' ac yn 'darparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen'.

**69.** Er hynny, roedd nifer o'r ymatebion yn cyfeirio at absenoldeb targed ar gyfer yr amser cyfan y bydd yn ei gymryd i gyrraedd digwyddiad. Roedd un yn awgrymu bod gan y cyhoedd hawl i wybod pa mor hir y mae'n ei gymryd o'r adeg pryd y caiff yr alwad ei derbyn i'r adeg pryd y bydd peiriant yn cyrraedd yr argyfwng. Roedd un arall yn awgrymu y dylid, o ystyried natur wledig rhannau mawr o Ogledd Cymru, gael amser targed sy'n ymwneud â'r adeg pryd y dylai'r peiriant tân gyrraedd tân mewn annedd.

**70.** Roedd un ymatebydd yn dal y byddai angen i'r targedau gael eu mesur drwy eu cymharu ag amseroedd ymateb cenedlaethol er mwyn iddynt fod yn ystyrlon.

**71.** **TARGED A:** Ateb 85% o'r holl alwadau 999 o fewn 7 eiliad, 95% o fewn 10 eiliad a 98% o fewn 20 eiliad.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cefnogi'r targed hwn – gan ei weld fel peth 'cadarnhaol' a chytuno y dylai fod yn berthnasol i bob galwad 999, nid dim ond tanau mewn annedd. Dim ond un cynnig arall a ddaeth i law, sef awgrym y dylid ateb 100% o'r galwadau 999 o fewn 10 eiliad.

**72.** **TARGED B:** Cychwyn ymateb i dân mewn annedd o fewn 1 funud ar 70% o'r achlysuron ac o fewn 2 funud ar 95% o'r achlysuron.

**73.** Roedd sawl ymateb yn anghytuno â manylion y targed hwn ac yn cynnig, yn hytrach, fabwysiadu'r targed ar gyfer Cymru gyfan y cytunwyd arno eisoes.

**74.** Roedd un ymateb yn dweud y byddai cael gwahanol dargedau'n peri dryswch.

**75.** Y targed y cytunwyd arno ar gyfer Cymru gyfan yw:

- Cychwyn ymateb i dân mewn annedd o fewn 90 eiliad ar 80% o'r achlysuron ac o fewn 120 eiliad ar 100% o'r achlysuron

sy'n disodli y targed drafft a oedd 'i gychwyn ymateb i dân mewn annedd o fewn 1 munud ar 70% o'r achlysuron ac o fewn 2 funud ar 95% o'r achlysuron.

**76.** **TARGED C:** O leiaf ddau beiriant tân ac wyth diffoddwr tân yn mynd at bob tân mewn annedd. Bydd y swyddog â gofal am y digwyddiad yn asesu p'un ai i ddod â rhagor o adnoddau, gan ddibynnu ar hyd a lled y tân.

**77.** Roedd 7 ymateb yn anghytuno â'r targed hwn:

- Roedd un yn pryderu nad oes unrhyw wahaniaeth yn cael ei nodi rhwng tân mewn annedd sydd wedi ei feddiannu ac annedd sydd heb ei feddiannu.
- Roedd un yn holi a oes angen anfon dau beiriant at dân mewn annedd, ac yn awgrymu mai'r peiriant cyntaf fyddai yn y sefyllfa orau i asesu wrth gyrraedd p'un ai oes angen yr ail beiriant mewn gwirionedd.
- Ar y llaw arall, roedd un o blaid mabwysiadu safon 3 pheiriant pan fo'n hysbys fod pobl yn bresennol yn yr annedd.
- Roedd dau yn bryderus nad yw isafswm o wyth diffoddwr tân ar y ddau beiriant yn ddigon o bosibl, ac oni bai fod dau beiriant yn dod o'r orsaf, fe allai diogelwch y criw cyntaf sy'n cyrraedd gael ei beryglu wrth aros i'r ail griw gyrraedd os mai dim ond pedwar diffoddwr tân sydd yno. Awgrymwyd targed o ddeg diffoddwr tân fel dewis arall.

**Cwestiwn 8**

**78.** **Petaech chi'n gorfod dewis rhwng y ddau beth canlynol, pa un fyddai eich dewis, a pham?**

**A. Cadw gorsaf dân ar agor oherwydd ei bod yn agos at eich cartref, ond gan dderbyn na fydd ar gael am sawl awr yr wythnos.**

**B. Cael gorsaf dân sy'n wastad yn barod i ymateb, ond gan dderbyn ei bod sawl milltir ymhellach o'ch cartref.**

**79.** Roedd 20 o ymatebion (38% o'r cyfanswm, 39% o bawb a atebodd) o blaid Opsiwn A, a 31 ymateb (59% o'r cyfanswm, 61% o bawb a atebodd) yn ffafrio Opsiwn B. Roedd dau ymatebydd heb ddewis yr un ohonynt.

**80.** Er y byddai'n well gan ddau draean o'r ymatebwyr gael gorsaf dân sy'n wastad yn barod i ymateb, ond gan dderbyn ei bod sawl milltir ymhellach o'u cartref, gwnaed nifer o sylwadau am y dewis a gynigiwyd:

- Rhoddwyd nifer o resymau gerbron gan Gyngor Tref Biwmares o blaid cadw gorsaf dân ar gael yn ôl y galw ym Miwmares.
- Roedd un ymateb yn dweud mor ddibwrpas yw cael gorsaf dân heb staff ar gael.
- Roedd dau yn gweld mai'r ateb go iawn fyddai recriwtio rhagor er mwyn cadw'r gofal ar gael.
- Roedd dau ymatebydd yn holi beth fyddai ystyr 'sawl milltir' i ffwrdd, a byddai'n well ganddynt na fyddai'r naill opsiwn na'r llall yn digwydd, gyda'r ddau beth - bod yn agos a bod ar gael - yn bwysig fel ei gilydd.
- Safbwynt arall oedd y gellid mynd i'r afael â'r broblem o ddiffyg diffoddwyr drwy gau rhai gorsafoedd ond rhoi dewis i'r criwiau symud i'r orsaf nesaf petaent yn dymuno.